O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 422 (Cy. 66)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-y-rhyd, Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud	*17 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*27 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Maentwrog – Man i'r Dwyrain o Gonwy (A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, **(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Glan-y-rhyd, Conwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd yng Nglan-y-rhyd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, sy'n ymestyn o bwynt gyferbyn â'r annedd o'r enw Ffridd Rhedyn hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd un trac o'r enw Ffordd Gul.